

Cofia Ceri

CA3/CA4

Adnodd i helpu ysgolion i dorri costau i deuluoedd



Cofia Ceri

- Gwybodaeth ar gyfer Athrawon

Rydyn ni wedi creu cymeriad dychmygol o'r enw Ceri i helpu ysgolion i feddwl am gostau'r diwrnod ysgol a sut gallen nhw effeithio ar deuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Mae Ceri yn berson ifanc yn eich ysgol chi, ond mae'r teulu'n cael trafferth talu am y pethau sydd eu hangen i fwynhau bywyd ysgol yn llawn. Gallwch helpu plant a phobl ifanc i ddefnyddio Ceri fel canolbwynt i siarad am unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw ynghylch costau ysgol, gan helpu i greu lle diogel i bawb.

Mae dwy ran i'r adnodd hwn: mae rhan un yn cael ei harwain gan ddisgyblion ac mae'n gofyn i'r plant a'r bobl ifanc nodi costau ychwanegol y diwrnod ysgol, a chostau yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae hefyd yn gofyn i'r plant a'r bobl ifanc nodi cefnogaeth mae eich ysgol eisoes yn ei darparu i deuluoedd a chyflwyno awgrymiadau ar gyfer newid.

Mae'r ail ran yn helpu ysgol adnabod y meysydd sy'n destun pryder i blant a phobl ifanc, a rhoi sylw i'w syniadau ar gyfer newid. Mae hefyd yn rhoi cyfle i chi ystyried polisiau cyfredol a'r help rydych chi'n ei gynnig, a sylwi ar feysydd i'w gwella.

Pencampwr Ceri

Fel rhan o'r argymhellion yn ein hadroddiad, fe ofynnwn ni i bob ysgol benodi "Pencampwr Ceri"; llywodraethwr neu aelod o staff sy'n gwneud yn siŵr bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio i sicrhau bod y diwrnod ysgol mor fforddiadwy â phosibl i deuluoedd. Bydd y gweithgaredd hwn yn helpu Pencampwr Ceri i edrych ar y ffyrdd sydd gennych chi eisoes i gefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi a hefyd i'ch helpu i ganfod rhannau o'r diwrnod ysgol a allai wella er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn well.

Cofia Ceri

- Gwybodaeth ar gyfer Athrawon

Paratoi ar gyfer y sesiwn a arweinir gan ddisgyblion

- Gwiriwch yr adnoddau sydd eu hangen, gan ddilyn y disgrifiad ar daflen y gweithgaredd a arweinir gan ddisgyblion.
- Bydd angen i'r disgyblion gael copïau o daflen y gweithgaredd a arweinir gan ddisgyblion i'w harwain trwy'r sesiwn.
- Dylai bod gennych wybodaeth am y cymorth sydd ar gael os daw disgybl atoch ar ddiwedd y sesiwn, neu fanylion y person yn yr ysgol sy'n gallu helpu.

Ar ddechrau'r gweithgaredd

- Esboniwch i'r disgyblion fod y Comisiynydd Plant am i ysgolion feddwl am ffyrdd o dorri costau i deuluoedd oherwydd dylai'r ysgol fod yn forddiadwy i bawb.
- Esboniwch pwy y gall disgyblion siarad â nhw os bydd rhywbeth yn y sesiwn wedi'u poeni nhw neu os ydyn nhw am gael rhagor o wybodaeth am rywbeth os bydd rhywbeth.

Calendr costau

- Gweithgaredd a arweinir gan ddisgyblion

Cysylltiadau â hawliau plant:

Erthygl 3 - Dylai oedolion wneud beth sydd orau i chi bob amser

Erthygl 12 - Yr hawl i gael gwrandawriad ac i gael eich cymryd o ddifri

Erthygl 26 - Dylai fy nheulu gael yr arian mae arnyn nhw ei angen i'w helpu nhw i fagu fi

Erthygl 28 - Yr hawl i gael addysg

Erthygl 29 - Yr hawl i gael sy'n datblygu fy mhersonoliaeth, parch at hawliau pobl eraill a'r amgylchedd

Pethau bydd eu hangen arnoch

- Taflen 'Dyma Ceri'.
- Taflen Waith 'Cost Ysgol'.
- Calendr o'r digwyddiadau yn eich ysgol chi.

Sut mae gwneud y gweithgaredd:

- Rhannwch yn grwpiau bach.
- Darllenwch y daflen Dyma Ceri.
- Mae Ceri yn berson ifanc ac mae'r teulu'n byw mewn tlodi. Mae hyn yn golygu nad oes arian ganddyn nhw bob amser ar gyfer y pethau mae ar Ceri eu hangen. Gan feddwl am Ceri, meddyliwch am y pethau sydd eu hangen arnoch chi ar gyfer yr ysgol, neu'r pethau rydych chi'n eu gwneud yn yr ysgol sy'n costio arian, a digwyddiadau neu ddiwrnodau arbennig sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn ysgol.
- Gan ddefnyddio colofn un a dau ar y daflen waith Cost Ysgol, ysgrifennwch yr holl gostau sy'n gysylltiedig â diwrnod nodweddiadol yn yr ysgol, ac unrhyw ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Gofalwch eich bod yn nodi'r pris os ydych chi'n ei wybod. Efallai byddwch chi am feddwl am y canlynol:

Gwisg ysgol

Offer

Costau cinio

Costau ychwanegol cysylltiedig â gwersi (cit ymarfer corff/ deunyddiau celf/ gwersi coginio/ 'prom')

Calendr costau

- Gweithgaredd a arweinir gan ddisgyblion

- I wneud yn siŵr eich bod chi wedi meddwl am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r ysgol, ewch trwy **galendr digwyddiadau eich ysgol** a nodwch unrhyw weithgareddau sy'n costio arian. Cofiwch eu cynnwys nhw yn eich taflen waith 'Cost Ysgol' (cofiwch gynnwys y pris os ydych chi'n ei wybod).

Calendr costau

- disgyblion

- Llenwch y drydedd golofn ar y daflen waith 'Cost Ysgol', gan nodi a oes unrhyw gefnogaeth yn cael ei chynnig gan eich ysgol chi yn barod. Os nad oes cymorth ar gael, oes yna unrhyw beth gallai'r ysgol ei wneud? Ysgrifennwch y syniadau hynny yng ngholofn 4.
- Unwaith byddwch chi wedi cwblhau'r gweithgaredd, rhowch eich taflen waith i'ch athro. Yna bydd eich athro'n pasio'r daflen ymlaen i 'Bencampwr Ceri' yn yr ysgol, aelod o staff mae eich ysgol wedi'i ddewis i wneud yn siŵr bod newidiadau yn eich ysgol yn helpu cynifer o bobl â phosibl. Bydd Pencampwr Ceri yn edrych ar eich awgrymiadau ac yn creu cynllun. Bydd yn rhoi gwybod i chi am y newidiadau mae'n mynd i'w gwneud, er mwyn i chi fedru gweld yr effaith rydych chi wedi'i chael.

Calendr Costau

- Gweithgaredd Pencampwr Ceri

Dylai'r gweithgaredd yma gael ei wneud gan Bencampwr Ceri, aelod o staff neu lywodraethwr mae eich ysgol wedi'i ddewis i arwain y gwaith o wneud yn siŵr bod newidiadau yn eich ysgol bob amser yn ystyried y teuluoedd hynny sy'n byw mewn tlodi. Dylai Pencampwr Ceri gael cefnogaeth gan lywodraethwyr/gan yr uwch-dîm arweinyddiaeth yn yr ysgol.

Yn gyntaf, gwiriwch y gweithgareddau a'r costau mae'r disgyblion wedi sôn amdanynt yn eu taflen waith "Cost Ysgol". Nodwch unrhyw weithgareddau/ddigwyddiadau nad yw'r plant wedi sôn amdanynt. Canolbwyntiwch ar golofn 3 a nodwch unrhyw gefnogaeth mae eich ysgol yn ei chynnig nad yw'r disgyblion wedi eu nodi. Ystyriwch a oes ffordd well o rannu'r gefnogaeth hon gyda disgyblion a theuluoedd er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gwybod amdani. Efallai byddwch chi am ddefnyddio ein posteri 'Dyma Ceri' i greu pwynt gwybodaeth canolog ar gyfer disgyblion, sy'n dangos y cymorth a'r cynlluniau sydd ar gael yn eich ysgol.

Nesaf, edrychwch ar y calendr ysgol a nodwch unrhyw weithgareddau/ddigwyddiadau neu hyd yn oed bolisiau a allai gostio arian, nad yw'r plant wedi sôn amdano. Eto, meddyliwch am unrhyw gefnogaeth rydych chi'n ei chynnig ar hyn o bryd, i sicrhau bod y gweithgareddau hyn ar gael i bob disgybl.

Yn achos unrhyw weithgareddau sydd ddim eisoes yn cynnig cefnogaeth, meddyliwch am sut gallech chi helpu teuluoedd a allai gael trafferth cymryd rhan.

Yn olaf, lluniwch gynllun gweithredu, yn nodi meysydd ar gyfer newid, ac yn enwi aelodau o staff fydd yn eu harwain.

Defnyddiwch ein templed "Dywedoch Chi, Wnaethon Ni" i roi adborth ar hyn i'r disgyblion a wnaeth y gweithgaredd Cost Ysgol, fel eu bod yn deall sut mae eu syniadau wedi helpu'r ysgol i feddwl am y gefnogaeth rydych chi'n ei chynnig i ddisgyblion fel Ceri. Rhannwch eich cynlluniau â ni trwy lenwi'r arolwg ar y dudalen nesaf.

Rhannu gyda ni

Sganiwch y cōd QR yma i lenwi arolwg byr am eich Calendr Costau. Ydy e wedi'ch helpu i gefnogi disgyblion yn eich ysgol chi?
Bydd eich adborth yn ein helpu i werthuso a gwella ein hadnoddau.




Dyma Ceri

Rydw i'n teimlo'n ddiflas iawn achos mae fy nheulu i'n wahanol i bawb arall.

Cenfigennus, rydw i'n teimlo'n genfigennus achos mod i'n methu fforddio pethau pwysig, ond bod eraill yn gallu.

Rwy'n teimlo drist iawn achos mae gan fy ffrindiau bethau maen nhw eisiau, a does gen i ddim hyd yn oed rai pethau rydw i angen.



Rydw i'n teimlo mod i ddim yn ddiogel a bod dim gobaith ar gyfer y dyfodol. Dwi'n poeni am gael cartref, addysg bellach, a chael swydd.

Rydw i'n teimlo'n mod i'n methu siarad â nheulu am fy mhroblemau oherwydd eu bod nhw eisoes dan straen, a bod angen i mi gael swydd yn lle mynd allan a threulio amser gyda ffrindiau er mwyn gallu cyfrannu at gostau fy nheulu. Dydw i ddim yn dweud wrth fy ffrindiau oherwydd rydw i'n ofni bydden nhw'n gwneud hwyl am fy mhen achos bod gen i ddim yr un pethau â nhw. Byddwn i'n unig!

